

Polisi Gwrthfwlio / Diogelu Ysgol Llandudoch

Mae'r ysgol hon yn credu bod bwlio'n annerbyniol ac na ddylai gael ei oddef. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhannu'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â bwlio os yw'n digwydd ac am gydweithio i hybu ymddygiad cadarnhaol.

Nodau'r polisi: Mae'r polisi **DIOGELU** allweddol hwn yn hanfodol i gefnogi ein hethos ysgol gyfan, sef sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn hapus. Mae wedi'i gynllunio i atal ymddygiad bwlio lle bynnag y bo'n bosibl, ymateb yn gyson yn unol â gweithdrefnau cytunedig os yw'n digwydd a rhoi cymorth i'r rhai hynny sy'n gysylltiedig fel y bo'n briodol. Mae diogelwch, iechyd a lles ein plant o'r pwys mwyaf ac yn fater i bawb.

Mae atal yn cynnwys cyfleu neges eglur fod ymddygiad negyddol yn wrthgymdeithasol ac yn annerbyniol ac na fydd yn cael ei oddef yma. **Mae polisi'r ysgol hon wedi'i seilio ar fenter a chanllawiau Llywodraeth Cymru, sef "Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio", sydd ar gael yn www.wales.gov.uk/respectingothers**

Beth yw ymddygiad bwlio?

"Bwlio yw pan fydd rhywun yn eich niweidio, eich bygwth neu'n codi ofn arnoch chi'n rheolaidd" *Diffiniad a ddefnyddir gan Swyddogion Cyswllt SCPO yr Heddlu mewn gweithdai ysgolion yn Sir Benfro.*

Mae bwlio'n ceisio achosi niwed a gofid yn fwriadol. Fel arfer, mae'n cael ei ailadrodd dros gyfnod ac mae'n anodd i'r sawl sy'n cael ei fwlio amddiffyn ei hun yn ei erbyn. Mae'n ymwneud ag anghydbwysedd pŵer a chamddefnyddio pŵer ac nid yw'n dibynnu ar oedran. Fe allai fod ysgogiad hiliol neu wahaniaethol iddo ac fe all ganolbwyntio ar ethnigrwydd, diwylliant, dosbarth cymdeithasol, crefydd, anawsterau dysgu, rhyw, rhywioldeb, cyflyrau iechyd tymor hir ac anabledd. Fe allai fod wedi'i seilio ar wahaniaethau bach rhwng plant nad ydynt bob amser yn amlwg i ni ac fe allai newid a datblygu wrth i berthnasoedd newid. Gall ymddygiad bwlio gael ei ddangos gan unigolion neu grwpiau. Mae'n bosibl na fydd bob amser yn glir pwy sy'n llywio'r ymddygiad a welwn. Mae rhai plant yn gallu bod yn 'ddioddefwyr pryfoclyd' ee trwy ymddwyn mewn ffordd flinderus sy'n sbarduno ymateb yn y pen draw a allai gael ei ystyried yn fwlio.

Nid bwlio yw cweryla â ffrindiau, dewis peidio â chwarae gyda rhywun, peidio â hoffi rhywun, ymddygiad ymosodol sy'n digwydd unwaith fel cwffio rhwng plant sy'n anghytuno, cysylltiad corfforol damweiniol, neu wylltineb arferol yr iard chwarae.

Diffiniad cytunedig Ysgol Llandudoch o fwlio

Diffiniad Llywodraeth Cymru o fwlio.

Mae sawl diffiniad o fwlio, ond mae'r rhan fwyaf o'r farn ei fod:

- yn fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol);
- yn cael ei ailadrodd yn aml dros gyfnod, gan gydnabod bod rhywbeth sy'n digwydd unwaith hyd yn oed yn gallu achosi trawma i ddysgwyr a pheri iddo fod yn nerfus y bydd yn digwydd eto yn y dyfodol; ac
- yn anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

- Mae'r hyn y mae dysgwyr unigol yn ei ystyried yn fwlio yn elfen allweddol hefyd. Gall bwlio ddigwydd ar sawl ffurf, ond y tri phrif fath yw:
- corfforol – taro, cicio, mynd ag eiddo, aflonyddu rhywiol neu ymddygiad ymosodol;
- geiriol – galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau cas; ac
- anuniongyrchol – lledu straeon cas am rywun, eithrio rhywun o grwpiau cymdeithasol, gwneud rhywun yn destun sïon maleisus, anfon negeseuon e-bost neu negeseuon testun maleisus ar ffonau symudol.'

Yn ogystal, mae mathau penodol o fwlio sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig yn rhan o'r strategaethau presennol hyn.

Mae ein hysgol yn darparu cymorth ychwanegol wrth lunio mesurau ataliol ac ymatebol i fynd i'r afael â gwahanol fathau o fwlio sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r mathau penodol hyn o fwlio gan ddefnyddio'r deunyddiau canllaw ar wefan Llywodraeth Cymru: www.wales.gov.uk/respectingothers

Mae ein dull ysgol gyfan o atal bwlio yn cynnwys:

- Datblygu ethos cadarnhaol sy'n cynnwys gwybod bod bwlio'n annerbyniol yma;
- Disgwyl ymddygiad cadarnhaol sy'n helpu a chefnogi dysgu a datblygu;
- Hyrwyddo cydweithredu a disgwyl ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol;
- Annog y rhai sy'n gweld bwlio i weithredu'n gadarnhaol trwy roi gwybod i staff a defnyddio pwysau gan gyfoedion i atal y bwllis;
- Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, sgiliau a doniau pawb;
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwytnwch trwy wasanaethau boreol, Amser Cylch, addysg bersonol a chymdeithasol, y rhaglen Ysgolion Iach, datblygu sgiliau, addysgu strategaethau ymdopi personol i ddisgyblion, cymryd rhan yng Nghyngor yr Ysgol, cynlluniau Cyfeillio a Mentora Cymheiriaid;
- Cyfraniad gweithredol gan ein SCPO dynodedig yr Heddlu i gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan;
- Dangos parch at bobl eraill a sicrhau ein bod ni **bob amser** yn herio ac addysgu am iaith amhriodol sydd;
- yn hiliol,
- yn homoffobig,
- yn rhywiol,
- yn rhagfarnllyd yn grefyddol,
- wedi'i hysgogi gan anabledd,
- neu a fyddai'n cael ei hystyried yn sarhaus neu'n ddifriol gan unrhyw grwpiau gwarchoddedig a enwir yn y ddeddf cydraddoldeb.
- Sicrhau bod y wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bob rhanddeiliad;
- Cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol wrth gynllunio/gweithredu'r polisi.
- Bydd pob aelod o staff yn dangos yr ymddygiadau cadarnhaol priodol trwy esiampl.

Pam dylem ni boeni?

Bydd rhywun sy'n cael ei fwlio yn ofidus a llawn cynnwrf ac yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar waith neu ddysgu. Fe allai fod arwyddion fel presenoldeb gwael, triwantaeth, bod yn hwyr, bod i ffwrdd o'r ysgol yn sâl, mynd i'w gragen a phryderu, colli eiddo ac arian, hwyliâu ansad, a dangos ymddygiad nad yw'n nodweddiadol.

Annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau os bydd bwlio'n digwydd:

- Gall disgyblion yn yr ysgol hon deimlo'n hyderus y bydd eu pryderon yn derbyn sylw mewn modd sensitif. **Byddwn yn ystyried pob adroddiad o ddifrif ac yn ymchwilio iddynt;**
- Bydd cyfrinachedd unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth yn cael ei barchu;
- Mae cyfleoedd i blant fynegi pryderon yn cynnwys blwch problemau, mynd at unrhyw aelod o staff, cynrychiolaeth ar Gyngor yr Ysgol a chyfeillion/mentoriaid a fydd yn trosglwyddo pryderon;
- Mae'r ysgol hon hefyd yn ystyried yr arweiniad a roddir yn nogfen ganllaw "Bît Ysgol" Cymru gyfan yr heddlu.

Os bydd bwlio'n digwydd, byddwn yn rhoi'r gweithdrefnau canlynol ar waith, fel y bo'n briodol, yn unol â chanllawiau "Parchu Eraill" Llywodraeth Cymru:

- Ystyried pob digwyddiad o ddifrif a'u cofnodi mewn Cofnodlyfr Bwlio. **Bydd unigolyn dynodedig yn monitro a chasglu gwybodaeth am ddiodefwyr a bwllis posibl. Bydd system electronig, sydd ar gael i bob aelod o staff, yn hwyluso'r broses hon;**
- Ymchwilio i'r digwyddiad / sefydlu'r ffeithiau trwy siarad â phawb sy'n gysylltiedig ar wahân;
- Defnyddio technegau ymyrraeth **adferol** i reoli anawsterau rhwng bwllis a diodefwyr, gan annog cymodi lle y bo'n bosibl / ymarferol;
- Lle y sefydlwyd ymddygiad bwlio, rhoi cosbau cytunedig ar waith yn gyson ac yn deg fel y bo'r angen er mwyn atal digwyddiadau pellach;
- Cynnwys y rhieni cyn gynted â phosibl pan fydd digwyddiadau'n cyfiawnhau hynny;
- Cymhwyso canllawiau "Bît Ysgol", sef dogfen gweithio mewn partneriaeth yr heddlu ar gyfer Cymru gyfan, i bennu p'un a oes angen cynnwys yr heddlu'n swyddogol; fel y nodwyd yn y canllawiau hyn, ymdrin â digwyddiadau'n fewnol lle bynnag y bo'n bosibl;
- Cadw cofnodion cywir, ffeithiol o'r holl ddigwyddiadau yr adroddwyd arnynt ac ymateb yr ysgol.
- Dilyn trywydd digwyddiadau bob amser ar ôl iddynt gael eu trin ac adolygu'r canlyniadau er mwyn sicrhau bod yr ymddygiad bwlio wedi dod i ben;
- Darparu cymorth parhaus i'r rhai sy'n gysylltiedig lle y bo'r angen.

Gan ddibynnu ar y math o ddigwyddiad, os defnyddir cosbau, gallai'r rhain gynnwys:

- Tynnu breintiau/amser rhydd yn ôl; atal mynediad i rannau o'r ysgol; cadw i mewn ar ôl ysgol; gwahardd o amser cinio; gwahardd am gyfnod byr; cynnwys y rhieni fel y bo'r angen / pan fydd angen; cynnwys asiantaethau allanol priodol; cynnwys manylion ar gofnod ysgol y bwli; gwahardd. Bydd yr ysgol bob amser yn cynnig Ymagwedd Adferol ac yn ceisio unioni niwed.

Strategaethau a mesurau ataliol i leihau tebygolrwydd bwlio yn yr ysgol hon:

- Byddwn yn sicrhau bod ymagwedd wrthfwlio ysgol gyfan sy'n cynnwys pawb (staff, myfyrwyr, rhieni a llywodraethwyr) wrth ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn;
- Bydd Ymarfer Adferol yn elfen allweddol o ymagwedd wrthfwlio a lles yr awdurdod / ysgol.
- Bydd Ymarfer Adferol yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â gwrthdaro a digwyddiadau penodol, fel bwlio neu driwantiaeth.
- Bydd Ymarfer Adferol yn cael ei ddefnyddio i wella perthnasoedd a datblygu llythrennedd emosiynol ac ymdeimlad o gymuned. Bydd ethos cyfrifoldeb personol yn cael ei annog lle yr anogir myfyrwyr i ddweud wrthym os ydynt yn cael eu bwlio eu hunain neu os ydynt yn gweld rhywun arall yn cael ei fwlio, gan wybod bod peidio â gweithredu yn cydoddef yr ymddygiad.
- Bod â system ar waith i fyfyrwyr roi gwybod i staff yn gyfrinachol pan fydd bwlio'n digwydd; sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n briodol i ymateb i hyn.
- Datblygu ein dealltwriaeth o gydgyfrifoldeb trwy Grwpiau Cymorth, amser cylch a chylchoedd adferol rheolaidd, cyngor yr ysgol, hyfforddiant mentora cymheiriaid / mentoriaid adferol, gwaith cwricwlaidd priodol (ee Addysg Personol a Chymdeithasol a'n menter Ysgolion Iach, a sesiynau gyda Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu);
- Bod â Pholisi Iard Chwarae / Amgylchedd Diogel sy'n cael ei ddeall a'i roi ar waith yn glir.
- Bod â chysylltiad eglur, pendant â Pholisi Ymddygiad a Pholisi Amddiffyn a Diogelu Plant yr ysgol.
- Cynnwys bwlio yn ein cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau eglur ar ymdrin â bwlio a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, rhieni a staff, gan gynnwys rôl ymagweddau adferol.

Mae'r ysgol yn dilyn yr argymhellion a amlinellir yn adroddiad ESTYN, *Gweithredu ar fwlio. Adolygiad o effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig disgyblion (Mehffin 2014)*

Fel ysgol, byddwn yn;

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai hynny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o fwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig ymhlith disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr, a defnyddio dull mwy rhagweithiol o atal a lliniaru ei effeithiau.
- Cynnal archwiliadau ac arolygon gwrthfwlio pan fo'n briodol, ac ymgynghori â disgyblion, rhieni a phobl eraill er mwyn amlygu graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol pan fo'r angen.

- Cynllunio cyfleoedd priodol i oedran yn y cwricwlwm i drafod materion sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig a chynyddu gwytnwch disgyblion yn erbyn bwlio;
- Sicrhau bod y staff yn deall graddau a natur y bwlio a allai ddigwydd yn yr ysgol, gan gynnwys seiberfwlio.
- Sicrhau bod y staff yn gwybod sut i ymdrin â digwyddiadau bwlio a'u cofnodi;
- Cofnodi a monitro digwyddiadau bwlio mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu amcanion cydraddoldeb strategol neu ei chynnwys ynddynt;
- Sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol i:

- Ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i goblygiadau;
- Darparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr ysgol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol;
- Monitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau cydraddoldeb ysgolion yn agosach.

Adolygu'r polisi

Mae manylion terfynol y polisi hwn wedi cael eu llunio mewn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni, staff ac aelodau cymuned yr ysgol.

Bydd yn cael ei drafod, ei adolygu a'i ddiwygio'n flynyddol.

Dogfennau cyfeirio a dolenni defnyddiol:

Deddf Cydraddoldeb 2010.

- *Arolwg ynghylch Nifer a Mynychder Achosion o Fwlio mewn Ysgolion yng Nghymru. Prif Adroddiad: Yr Uned Pobl a Gwaith, 2010*
- *Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth mewn Ysgolion: Estyn, 2005*
- *Dim Lle i Fwlio: Ofsted, 2012*

- ***Atal ac ymateb i fwlio ar sail hunaniaeth ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban: y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010***
- ***Hyrwyddo Cydraddoldeb Anabledd mewn Ysgolion: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007***
- ***Parchu Eraill: Trosolwg Gwrthfwlio: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Parchu Eraill: Bwlio ar sail hil, crefydd a diwylliant: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Parchu Eraill: Bwlio sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Parchu Eraill: Seiberfwlio: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Parchu Eraill: Bwlio homoffobig: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Parchu Eraill: Bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig: Llywodraeth Cymru, 2011***
- ***Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion: Estyn, 2011***
- ***Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion: Estyn, 2005***
- ***Effaith polisiâu cydraddoldeb hiliol ysgolion: Estyn, 2009***
- ***Natur a graddau bwlio disgyblion mewn ysgolion yng ngogledd Iwerddon: RSM McClure Watters, 2011***
- ***Yr Adroddiad Ysgolion: Stonewall, 2012.***
- ***Gweithredu ar fwlio. Adolygiad o effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig disgyblion (ESTYN Mehefin 2014)***
- ***Polisi Diogelu Plant ERW.***

Diwygiwyd ym mis Mehefin 2016.

Llofnod y Pennaeth – E G Thomas

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr – Mr Geraint Volk